# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 HYDREF 2023** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gyllid. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
- Lle mae'r mesurau perfformiad arni
- Diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau

3.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio Perfformiad a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

3.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol.

## 4. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)

4.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran.

### 4.2 Cyflawni Arbedion

4.2.1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £39.1m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

4.2.2. Mae'r Cabinet, yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023, wedi cymeradwyo gweithredu cynlluniau arbed newydd yn 2023/24, gyda chyfanswm gwerth o £3,097,370.

4.2.3. Yn ogystal â'r arbedion hyn, roedd gofyn ar yr ysgolion i gyfrannu at y cynlluniau arbed hefyd. Mae'r Cyngor wedi cytuno i weithredu capio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol, a pheidio cyflwyno toriadau ar y sector arbennig. Mae cyfnod gweithredu'r toriad yma dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu yn £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25.

4.2.4. Ymhellach, mae nifer o gynlluniau arbed sydd yn deillio o raglenni arbed blaenorol wedi llithro i 2023/24, ac wedi eu hychwanegu i'r cynlluniau oedd eisoes wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn hon.

4.2.5. Canlyniad hyn yw fod gwerth £950,250 o gynlluniau arbedion oedd eisoes yn bodoli i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2023/24. Roedd y cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor.

4.2.6. Mae'r symiau perthnasol eisoes wedi cael eu tynnu allan o gyllidebau'r adrannau yn 2023/24; mae adolygiad ffurfiol o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2023 eisoes ar waith, a bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal ar ddiwedd Tachwedd 2023. Bydd adroddiadau manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet.

**4.3 Cynllun Digidol 2023-28**

4.3.1 Mae'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Digidol ar 2023-28 wedi cynyddu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf. Daeth cyfnod y "Strategaeth Ddigidol" blaenorol i ben yn 2018 ac er bod Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion wedi'i fabwysiadu yn y cyfamser, nid oes cynllun corfforaethol wedi'i lunio yn ystod yr un cyfnod.

4.3.2 Er mwyn datblygu'r Cynllun, sefydlwyd Bwrdd Trawsnewid Digidol ac er mai'r Adran Cyllid sy'n gyfrifol am wireddu'r prosiect yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Bwrdd yn cadw trosolwg ac yn cynnig her yn ogystal â chefnogaeth tu hwnt i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad arferol.

4.3.3 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyda'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Technoleg Gwybodaeth yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect. Mae pedwar is-grŵp wedi'u ffurfio i edrych ar feysydd penodol, gyda cynrychiolaeth o ystod o adrannau'r Cyngor a'r cadeiryddion yn ymuno fel rhan o'r Bwrdd:

- Technegol a Gwydnwch
- Cyswllt Cwsmer
- Data
- Gweinyddiaeth a Systemau Busnes

4.3.4 Ymhellach, mae'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro yn aelodau o'r Bwrdd, yn ogystal â'r Pennaeth Addysg (sydd â swyddogaeth benodol i sicrhau cydlyniad rhwng y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion a'r hyn sydd ar y gweill ar lefel corfforaethol).

4.3.5 Cyflwynwyd y Cynllun drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023; bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu yn cael eu hymgorffori cyn bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2023 gyda cais i fabwysiadu'r Cynllun terfynol.

**5. PERFFORMIAD**

5.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd ddiwethaf ym mis Ionawr. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**5.2** **Gwasanaeth TG – Isadeiledd.** Mae'r gwasanaeth yma yn cyflawni nifer o brosiectau yn barhaus, gyda'r nod o gadw'r rhwydwaith yn gadarn, effeithlon a diogel. Canlyniad hyn yw fod galw mawr ar y gwasanaeth a phwysau ar y swyddogion yn enwedig o ystyried fod cynnydd wedi ei weld yn ddiweddar o safbwynt defnyddwyr ffôn a defnyddwyr Technoleg Gwybodaeth. Wedi dweud hynny, mae diffyg capasiti staffio o fewn y gwasanaeth hwn yn parhau'n beth pryder i mi, ac rwyf wedi gofyn i'r Pennaeth Adran a'r Pennaeth Cynorthwyol adolygu'r sefyllfa.

**5.3** **Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Rwyf yn fodlon iawn â pherfformiad y gwasanaeth yma; mae tystiolaeth ei fod yn ymateb yn brydlon i ymholiadau a trafferthion defnyddwyr. Serch hynny, credaf y byddai ehangu'r drefn o dderbyn gwybodaeth am fodlonrwydd cwsmer yn fuddiol iawn ac mae'r gwasanaeth wedi cytuno i weithredu ar hyn yn fuan.

**5.4** **Gwasanaeth TG – Rheolaeth Rhaglen/Systemau Allanol.** Credaf bod angen ail ymweld â phwrpas y gwasanaeth yma. Credaf fod lle iddo ystyried adolygu mwy o systemau ar draws y Cyngor, sef y rhai hynny nad ydynt mor effeithiol ag y gallent fod, neu lle mae problemau i'w datrys eisoes yn wybyddus.

Mae ansawdd sain yn systemau fideo-gynadledda yn Siambr Hywel Dda a Siambr Dafydd Orwig yn parhau'n bryder, ond rwyf yn falch o adrodd fod gwaith i fynd i'r afael â'r broblem wedi digwydd yn ystod yr haf Mae'r darparwyr wedi ymweld â'r Cyngor i ymchwilio i'r broblem ac i wasanaethu'r system, a'i uwchraddio fel bo'r angen.

**5.5** **Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Roedd y canran cwblhau galwadau yn is na'r arfer yn ystod y cyfnod. Mae hyn am gyfuniad resymau gan gynnwys lefel uwch na'r arfer o absenoldeb salwch staff dros y cyfnod. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi ymgymryd â phrosiect mawr o fudo SIMS (system weinyddu ysgolion) i'r cwmwl sydd wedi cymryd amser y Tîm Technegol a'r Tîm SIMS.

Canlyniad hyn oedd fod capasiti i gefnogi'r ysgolion wedi bod yn is na'r disgwyl yn y tymor byr ond rwyf yn disgwyl i'r sefyllfa wella yn y misoedd nesaf.

**5.6** **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys.** Pwrpas y gwasanaeth yw uchafu'r budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn a chadw cyfrifon priodol, buddsoddi llif arian y Cyngor yn ddiogel gyda llog derbyniol, a rheoli benthyciadau hir-dymor. Rwyf yn hapus gyda perfformiad y Gwasanaeth i wireddu ei bwrpas.

Mae'n braf iawn gallu adrodd fod perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd yn chwartil uchaf holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y DU. Ar sail perfformiad 3-blynedd roedd y Gronfa yn y 3$^{ydd}$ safle o bron i 100 o gronfeydd ac yn y 7$^{fed}$ safle dros

5 mlynedd. Mae hyn yn dangos bod perfformiad y Gronfa wedi bod yn gryf iawn dros y blynyddoedd diweddar.

5.7 **Gwasanaeth Pensiynau.** Rwyf yn falch iawn i adrodd fod perfformiad y gwasanaeth o ran ymateb i ymholiadau yn arbennig o dda. Mae'r defnydd o'r system "Fy Mhensiwn Ar-lein" yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol, a chynnydd cyson yn nifer y defnyddwyr. Rydym yn gobeithio uwchraddio i fersiwn newydd o'r safle cyn diwedd y flwyddyn a bydd ymgyrch i gynyddu'r aelodaeth ymhellach yn digwydd bryd hynny.

Am y tro cyntaf, roedd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Y gobaith oedd y byddai hyn yn gyfle gwych i gwrdd â nifer fawr o aelodau'r gronfa a'u helpu i ddeall eu pensiwn yn well a rhoi cymorth iddynt greu cyfrif "Fy Mhensiwn Ar-lein" neu gwblhau ffurflenni perthnasol. Rwyf yn falch o adrodd fod yr adborth wedi bod yn bositif iawn.

Yn olaf, wrth baratoi deunydd marchnata ar gyfer yr Eisteddfod roeddem yn meddwl y byddai'n syniad da cael logo newydd wedi'i ddylunio ar gyfer y Gronfa Bensiwn, gan fod y logo presennol yn edrych braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn. Mae'r adborth i'r logo newydd wedi bod yn bositif dros ben, ac rwyf yn falch iawn o allu dweud ei fod wedi cael ei ddylunio gan un o staff y Gwasanaeth TG mewnol, heb orfod defnyddio cyflenwr allanol.

5.8 **Gwasanaeth Cyflogau.** Bu'r cyfnod dan sylw yn un heriol i'r Gwasanaeth Cyflogau, wrth iddo ymdrin â thaliadau anghyfunol i athrawon, a wnaed ym mis Mai yn dilyn y codiad cyflog oedd wedi ei weithredu yn mis Ebrill. Roedd hwn yn broses heriol o ganlyniad i diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru, ac roedd natur y taliad yn golygu nad oedd rhaglen o fewn y system cyflogau gellid ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo gwerth y taliadau yma. Roedd rhaid felly gwneud yr holl gyfrifiadau yn unigol tu allan i'r system a'u bwydo i mewn. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Gwasanaeth Cyflogau am eu gwaith ar hyn.

Mae gen i beth pryder ar fethiant rhai o wasanaethau'r Cyngor i hysbysu'r Gwasanaeth Cyflogau'n amserol o unrhyw newid mewn sefyllfa unigolion, er mwyn gallu gweithredu ar amser. Bydd yr Adran yn gweithredu i godi ymwybyddiaeth swyddogion o'r mater fel bo'n briodol.

5.9 **Gwasanaeth Incwm.** Er fod peth gwelliant yn sefyllfa dyledion dros 6 mis oed, rwyf yn awyddus iawn i barhau i roi sylw i gynnydd yr achosion rydym yn eu cyfeirio at yr Gwasanaeth Cyfreithiol, er mwyn sicrhau bod cydweithio effeithiol rhwng y ddwy uned.

5.10 **Gwasanaeth Trethi.** Mae'r gwaith ar yr adolygiad Systemau sy'n digwydd yn y Gwasanaeth Trethi yn parhau, ac rwyf yn falch o adrodd ein bod yn dechrau gweld canlyniadau positif iawn o'r gwaith yma, ond mae'r gwaith yn parhau. Rwyf yn falch o nodi fod y gwaith mae'r gwasanaeth wedi ei gyflawni wedi caniatáu digon o gapasiti

ar amseroedd penodol i alluogi'r gwasanaeth i gadw llinellau ffôn yn agored tan 5 yr hwyr o fis Medi. Rwyf yn ymwybodol iawn fod cau'r llinellau am 2 o'r gloch y prynhawn yn rhywbeth oedd yn creu pryder sylweddol i'r aelodau etholedig ac yn falch iawn o allu adrodd y cam yma ymlaen.

**5.11** **Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg.** Yn anffodus, mae'r ôl-groniad o hawliadau yn cynyddu, ond mae camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r sefyllfa yn fewnol. Fodd bynnag, un rhwystr sy'n atal y gwasanaeth rhag gallu gweithredu'n effeithiol yw gorfod disgwyl rhy hir am nifer gymharol uchel o adroddiadau gan rannau eraill o'r Cyngor. Mae hyn yn creu ychydig o bryder a bydd yr Adran yn gweithredu i geisio gwella'r sefyllfa.

**5.12** **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg/Taliadau.** Mae'r Adran wedi cwblhau chwe set o Gyfrifon Amodol ar Archwiliad 2022/23. Cyflwynwyd cyfrifon amodol ar archwiliad Cyngor Gwynedd 2022/23 i'r archwilwyr ar 30 Mehefin. Cyflwynwyd cyfrifon y cyd-bwyllgorau llai o faint (sef yr Harbyrau a Pholisi Cynllunio ar y Cyd) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Mai. Rhyddhawyd Cyfrifon GwE ddiwedd Mehefin a'u cyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 11 Gorffennaf 2023. Cyflwynwyd cyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i'w gyfarfod ar 26 Mai, a rhyddhawyd cyfrifon Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 7 Gorffennaf a'u cyflwyno i'r Bwrdd ar 21 Gorffennaf. Mae'r cyfrifon hyn i gyd bellach yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, sydd yn bwriadu cwblhau yr archwiliadau erbyn diwedd Tachwedd.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i staff yr Adran Gyllid a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r Archwiliad Estyn ar yr Adran Addysg yn ddiweddar.

## 6. ARBEDION ADRANNOL

6.1 Mae'r adran wedi cyflawni ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2022/23. Mae un cynllun arbed yn parhau o fewn rhaglen 2022/23, sef *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol*. Nid wyf yn rhagweld erbyn hyn bydd y cynllun am wireddu'r targed arbedion o £25k felly mae'r Adran parhau i edrych am gynllun amgen.

---

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma, ac yn cadarnhau'r cynnwys.

CYNGOR GWYNEDD